

Mae'n rhyfedd o beth, ar ryw olwg, fod Sais o Wiltshire yn cael ei gyfrif yn un o enwogion Maesyfed a'i fod wedi ennill ei le yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Dyna sy'n wir am y Parchedig Robert Francis Kilvert (1840-79), gwŷr a ddaeth yn gurad i blwyf Cleirwy ger Y Gelli Gandryll, gan aros yno am saith mlynedd, ac yna'n ddiweddarach yn ei yrfa fer yn treulio blwyddyn yn ficer plwyf mynyddig Saint Harmon yn yr un sir.

Gall pâr o lygaid dieithr yn aml weld a sylwi'n llawer iawn mwy gwrthrychol na'r llygaid cyfarwydd. Dyna a ddigwyddodd yn hanes Kilvert — nid yn unig gweld a sylwi, ond croniclo bywyd cefn gwlad yn delynegol, a hynny ar ffurf dyddiadur. Y dyddiaduron yn eu tro a ddaeth ag amlygrwydd i'w hawdur, gryn drigain mlynedd ar ôl ei farwolaeth ac erbyn hyn fe ystyrir ei ryddiaith yn un o fân glasuron yr iaith Saesneg.

Un o'r elfennau llai amlwg yn y dyddiadur yw'r dystiolaeth am wybodaeth Kilvert o'r iaith Gymraeg a thystiolaeth ynglŷn â diflaniad yr iaith ym Maesyfed. Diflaniad graddol fu'r enciliad ac fe'i cyffelybwyd gan un sylwedydd i ddiflaniad y wiwer goch wrth i'r Saesneg lifo dros y ffin fel y gwnaeth y wiwer lwyd. Defnyddid y Gymraeg yn eang o fewn y sir yn ystod yr Oesoedd Canol a cheir digon o dystiolaeth am ei defnydd yn swydd Henffordd hefyd hyd yr unfed ganrif ar bymtheg — dyma sy'n cyfrif am y llu enwau lleoedd Cymraeg sy'n bodoli hyd heddiw yn Ewas, Ergyng ac Anergyng. Ymwelai beirdd y cyfnod, gan gynnwys Iolo Goch a Lewys Glyn Cothi, â chartrefi bonedd y sir. Ymhlith y teuluoedd hynny yr ymwelent â hwy yr oedd Fychaniaid Cleirwy, y Clas-ar-Wy a Hergest. Canai nifer o feirdd brodorol Maesyfed iddynt yn ogystal, gan gynnwys Morgan Elfael, Owen Ieithon, Ieuan Rhaeadr a Hywel ap Syr Mathew. Ceir darlun pur gyflawn o'r bywyd diwylliannol hwn yng nghyfrolau digymar Mr Ffrancis Payne, *Crwydro Sir Faesyfed*.

Yn ôl cofnodion gofwy yr Eglwys yng Nghymru, gellid tybio mai o gwmpas 1730 y dechreuodd diflaniad yr iaith ym Maesyfed. Cornel gogledd-ddwyreiniol y sir oedd y man cyntaf i ddiodesdef ond symudodd y ffin i'r gorllewin fwyfwy yn ystod y ddeunawfed ganrif. Dywed Benjamin Malkin yn 1803 mai Saesneg oedd iaith y mwyafrif erbyn hynny, heblaw am orllewin y sir lle ceid Cymry uniaith o hyd yng Nghwmteuddwr ac ardal ddwyieithog yng nghornel de-ddwyrain y sir o gwmpas Castell-paen a Chleirwy a hyd yn oed ychydig dros y ffin. Y rheswm am hyn oedd bod ffyrdd y porthmyn o Geredigion a sir Gaerfyrddin

# KILVERT A'R GYMRAEG

## gan DAFYDD IFANS



FRANCIS KILVERT (1840-79) Llyn: Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

yn rhedeg trwy ardal Llanfair-ym-Muallt, tros Fynydd Cleirwy ac i groesfan Rhydspens ar afon Gwy. Gyda dyfodiad y rheilffyrdd i'r ardal yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg diflannodd yr angen am borthmyn a chollwyd dylanwad y Gymraeg yn yr ardal. Dywed Mr Ffrancis Payne fod tystiolaeth y siaredid y Gymraeg gan rai o frodorion rhan uchaf plwyf Cleirwy o gwmpas Llys Ifor (*Llanshïver*) tuag 1850 a bod cangen o gymdeithas gyfeillgar y

Gwir Iforiaid yng Nghastell-paen mor ddiweddar ag 1847. Erbyn i Kilvert gyrraedd Cleirwy yn 1870, fodd bynnag, yr oedd y Seisnigeiddio a ddechreuasai yn y ddeunawfed ganrif wedi cyrraedd penllanw.

Mae'n amlwg o'r dyddiadur fod Kilvert wedi meistroli digon o Gymraeg i fedru dadansoddi a dehongli enwau lleoedd Cymraeg. Dywed wrthym fod 'Cross Foot' yn llygriad o'r gair Cymraeg 'Croesffordd' a bod Bryn-y-garth wedi ei gamenwi

gan fod y ffermdy hwnnw mewn pant. Ceir esboniad ganddo o'r enw 'Tŷ yr deol' ger Capel-y-ffin, gan ddweud mai 'Tŷ'r Dial' fyddai'r ffurf gywir. Deallai hefyd fod yr enw Rhaeadr yn cyfeirio at raeadr yr afon Gwy yn y dref honno. Weithiau fe gynhwysir yr esboniad ganddo o fewn naratif y dyddiadur, er enghraifft, 'Pwll-dwrgi, the Pool of the water dog or water beast, the Otter's Pool', dro arall mae'n camesbonio, er enghraifft dywed mai 'the white monk's house' yw ystyr Tirmynach, yn hytrach na'r *Monk's land* mwy tebygol.

Cynhwysir esboniad cymhleth a chywrair o'r enw Cwm Ceilo neu Cwm Cello, lle trigai Meudwy Llanbedr Castell-paen. Yr oedd y Meudwy yn ddigon o Gymro i wybod nad oedd ystyr i'r gair 'cello' yn Gymraeg, ond un diwrnod gwelodd eiriadur Cymraeg mewn ffermdy a darganfu'r gair 'ceilio' a olygai gorlan neu noddfa i anifeiliaid. Cofnodir hefyd esboniad a roddwyd gan David Price, Capel-y-ffin. Credai ef mai ystyr Bwlch y Fingel oedd 'hafn gul rhwng dau fryn' yn hytrach na Bwlch yr Efengyl / *Gospel Pass* fel y credai'r mwyafrif.

Nid esbonio enwau lleoedd oedd unig gamp Kilvert wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Yn wir, mae'r dyddiaduron yn cynnwys ambell air Cymraeg heb ddim esboniad o gwbl. Wrth sôn amdano'i hunan yn llunio cerdd un diwrnod fe ddywed yn sydyn, 'The awen was upon me and I composed a poem on that "Dingle of the Cwm"'. Eto ym myd barddoniaeth fe'i cawn yn llunio ffugenw barddol iddo'i hun, 'Eos Gwynddwr' ar ôl enw nant leol yng Nghleirwy.

Gwyddai Kilvert yr enwau Cymraeg am rai planhigion ac anifeiliaid. Sonia am goed bedw, am yr enw Cymraeg ar y



TAFARN RHYDSPENS — hen dafarn y Porthmyn ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Llyn: Llyfrgell Genedlaethol Cymru.